



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 26 Chwefror 2009

Tabled on 26 February 2009

Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Proposed Local Government (Wales) Measure

Paul Davies

37

Section 29, page 22, after line 17, insert –

‘() Welsh Ministers must take account of the consultation process detailed in subsection () and the opinions expressed therein.’

Adran 29, tudalen 22, ar ôl llinell 19, ychwanegwch –

‘() Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd i ystyriaeth y broses ymgynghori y manylir arni yn is-adran () a’r safbwyntiau a fynegir ynddi.’

Paul Davies

22A

As an amendment to amendment 22, line 3, after ‘authorities’, insert ‘and key stakeholders’.

Fel gwelliant i welliant 22, llinell 3, ar ôl ‘awdurdodau gwella Cymreig’ ychwanegwch ‘a’r rhanddeiliaid allweddol’.

Kirsty Williams

38

Section 29, page 22, line 11, after 'may', insert, 'subject to section (),'.

Adran 29, tudalen 22, ar ddechrau llinell 12, ychwanegwch, 'Yn ddarostyngedig i adran (),'.

Kirsty Williams

39

To insert a new Section—

'Welsh Ministers: exercising the power under section 29

- (1) The power under section 29(1) may not be exercised in relation to a Welsh improvement authority unless—
 - (a) there is in force a partnership agreement which applies to that authority, and
 - (b) the power is exercised in accordance with the terms of that agreement.
- (2) Subsection (1) does not apply if the power under section 29(1) is exercised at the request of the Welsh improvement authority in question and in accordance with the terms of that request.
- (3) A "partnership agreement" means an agreement which identifies the circumstances under which the power under section 29(1) may be exercised in relation to a Welsh improvement authority or in relation to improvement authorities of a particular description.
- (4) A partnership agreement may be entered into between the Welsh Ministers and—
 - (a) a Welsh improvement authority, or
 - (b) two or more Welsh improvement authorities.
- (5) Where subsection (4)(b) applies, the partnership agreement may be entered into by a body which is authorised to do so on behalf of each of the authorities in question.
- (6) A partnership agreement must include provision identifying the circumstances -
 - (a) under which it may be terminated by or in relation to an authority to which it applies;
 - (b) under which consideration must be given to the revision of its terms.'

Ychwanegu Adran newydd -

'Gweinidogion Cymru: arfer y pŵer o dan adran 29

- (1) Ni chaniateir i'r pŵer o dan adran 29(1) gael ei arfer mewn perthynas ag awdurdod gwella Cymreig oni bai –
 - (a) bod cytundeb partneriaeth mewn grym sy'n gymwys i'r awdurdod hwnnw, a
 - (b) bod y pŵer yn cael ei arfer yn unol â thelerau'r cytundeb hwnnw.
- (2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys os arferir y pŵer o dan adran 29(1) ar gais yr awdurdod gwella Cymreig o dan sylw ac yn unol â thelerau'r cais hwnnw.
- (3) Ystyr "cytundeb partneriaeth" yw cytundeb sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y caniateir i'r pŵer o dan adran 29(1) gael ei arfer mewn perthynas ag awdurdod gwella Cymreig neu mewn perthynas ag awdurdodau gwella o ddisgrifiad penodol.
- (4) Caniateir i gytundeb partneriaeth gael ei wneud rhwng Gweinidogion Cymru ac –
 - (a) awdurdod gwella Cymreig, neu
 - (b) dau neu fwy o awdurdodau gwella Cymreig.
- (5) Pan fo is-adran (4)(b) yn gymwys, caniateir i'r cytundeb partneriaeth gael ei wneud gan gorff a awdurdodwyd i wneud hynny ar ran pob un o'r awdurdodau o dan sylw.
- (6) Rhaid i gytundeb partneriaeth gynnwys darpariaeth sy'n nodi o dan ba amgylchiadau -
 - (a) y caniateir ei derfynu gan awdurdod y mae'n gymwys iddo neu mewn perthynas â'r awdurdod hwnnw;
 - (b) y mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i ddiwygio ei delerau. '.

Kirsty Williams

40

Section 30, page 23, after line 13, insert –

- '() The circumstances in which an authority is to be regarded as failing or is likely to fail must be set out in the agreement referred to in section () (1)(a).'

Adran 30, tudalen 23, ar ôl llinell 14, ychwanegwch –

- '() Rhaid nodi yn y cytundeb y cyfeirir ato yn adran () (1)(a) o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid barnu bod awdurdod yn methu neu'n debyg o fethu.'

Kirsty Williams

41

Section 30, page 23, line 34, leave out 'the Welsh Ministers or a person nominated by them' and insert 'a person nominated by the Welsh Ministers'.

Adran 30, tudalen 23, llinell 37, gadewch allan 'Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt' ac ychwanegwch ' berson a enwebwyd gan Weinidogion Cymru'.

Kirsty Williams

42

Section 30, page 23, line 37, leave out 'Welsh Ministers or their nominee' and insert 'nominee of the Welsh Ministers'.

Adran 30, tudalen 23, llinell 41, gadewch allan 'Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt' ac ychwanegwch 'enwebai Gweinidogion Cymru'.

Kirsty Williams

43

Section 30, page 23, line 39, leave out 'Welsh Ministers or their nominee' and insert 'nominee of the Welsh Ministers'.

Adran 30, tudalen 23, llinell 43, gadewch allan 'Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt' ac ychwanegwch 'enwebai Gweinidogion Cymru'.

Kirsty Williams

44

Section 30, page 23, after line 40, insert –

'() A function specified in a direction under subsection (6) can relate only to education.'

Adran 30, tudalen 23, ar ôl llinell 44, ychwanegwch –

'() Ag addysg yn unig y caiff swyddogaeth a bennir mewn cyfarwyddyd o dan is-adran (6) ymwneud.'